



Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Dyddiad/ Date	9fed Tachwedd 2020
Rhif Ffôn/ Direct Line	01639 763298
Ebost/ Email	a.evans@npt.gov.uk
Cyswllt/ Contact	
Eich cyf/ Your ref	
Ein cyf/ Our ref	AE/jg

Annwyl Riant / Gofalwr,

Wrth i ni ddechrau ar ail hanner Tymor yr Hydref ac yn wynebu misoedd y gaeaf, hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am eich cefnogaeth a'ch dealltwriaeth mewn cyfnod mor bryderus.

Hoffwn hefyd rannu rhai negeseuon allweddol gyda chi.

Mae'r mesurau rheoli a ddefnyddir gan ysgolion wedi bod yn effeithiol wrth sicrhau y gall disgyblion ddychwelyd i'w dysgu mewn amgylcheddau sy'n Covid ddiogel. Ychydig iawn o dystiolaeth sydd o drosglwyddo'r firws ymlaen mewn ysgolion.

Mae uwch arweinwyr wedi datblygu perthynas gadarn gyda'n gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu (POD / TTP), wedi'i sylfaenu ar brotocol a ddeallir yn dda sy'n caniatáu i ysgolion wneud penderfyniadau cynnar a rhagofalus ar hunan-ynysu er mwyn amddiffyn disgyblion a staff. Rydym yn ymwybodol y gall penderfyniadau o'r fath dorri ar draws bywyd teuluol, ond maen nhw'n hanfodol wrth reoli trosglwyddiad y firws. Rydym yn llwyr gefnogi penaethiaid yn y mater hwn.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn dda ac mae penaethiaid ac uwch arweinwyr eraill yn nodi ymgysylltiad hynod gadarnhaol â dysgu, mae parch amlwg at weithdrefnau newydd ac ymrwymiad cryf i normaleiddio profiad ysgol disgyblion. Adroddir am lefelau uchel o hyder mewn asesiadau a rheolaeth risg ein hysgolion.

Byddwch yn ymwybodol bod achosion Covid yn parhau i godi o fewn yr awdurdod lleol. Gyda hyn mewn golwg, gofynnwn am eich cydweithrediad parhaus i gefnogi ein hymdrechion i leihau effaith y firws a chyfyngu ei ledaeniad.

Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes
Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes
Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot, SA13 1PJ
Ffôn 01639 763393

Education, Leisure & Lifelong Learning
Director of Education, Leisure & Long Learning
Civic Centre, Port Talbot, SA13 1PJ
Phone 01639 763393

www.npt.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a byddwn yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg a Saesneg i'r un safonau ac amserlenni.
We welcome correspondence in Welsh and will deal with Welsh and English correspondence to the same standards and timescales.

Mae'n bwysig bod cyngor ar hunan-ynysu yn cael ei ddilyn a'n bod yn sicrhau eich cydweithrediad â'r prosesau olrhain.

Atgoffir rhieni y dylid ceisio prawf Covid lle mae gan unigolion un o'r symptomau canlynol

- peswch parhaus newydd
- twymyn neu dymheredd uchel
- colli neu newid synnwyr o arogl neu flas

Rydym yn ymwybodol bod y gaeaf yn draddodiadol yn dod â nifer o afiechydon nad ydynt yn rhai Covid yn ei sgil a byddem yn cynghori bod plant yn cael eu cadw adref os ydynt yn dioddef o gyfog, llwnc tost ac yn dangos symptomau math ffliw gaeaf ac nad ydynt yn dychwelyd nes eu bod yn well.

Os yw eu salwch yn peri pryder yna dylech ofyn am gyngor meddygol fel y byddech chi fel arfer. Os oes gan blentyn symptomau ysgafn tebyg i annwyd, dylent barhau i fynd i'r ysgol, os yw'n ffit i wneud hynny.

Byddem yn pwysleisio'n gryf mai golchi dwylo, glanhau arwynebau a chadw pellter cymdeithasol yw'r ffyrdd mwyaf effeithiol a buddiol o amddiffyn eich hun, eich teulu, eich ffrindiau a'ch cymuned.

Gofynnwn i rieni / gofalmwyr osgoi ymgynnull o amgylch lleoliadau ysgol a chadw at gyngor yr ysgol ynghylch trefniadau gollwng a chasglu plant. Ar ben hynny, rydym yn disgwyl i rieni / gofalmwyr ac ymwelwyr eraill wisgo gorchuddion wyneb ar safle'r ysgol (p'un a ydynt yn mynd i mewn i'r adeilad neu fel arall), gan gynnwys amser gollwng a chasglu.

Mae'r Nadolig yn parhau i fod yn rhan bwysig o galendr ysgol a hoffem wneud pob ymdrech i sicrhau ei bod yn cael ei dathlu mewn ffordd mor normal â phosibl. Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i gymryd camau nawr a ddylai gael effaith gadarnhaol ar brofiadau plant a phobl ifanc dros y misoedd nesaf.

Yr eiddoch yn gywir,



Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot